# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 2

Y DRETH A GWAREDIADAU TRETHADWY

## PENNOD 2

GWAREDIADAU TRETHADWY

### 8 Gweithgarwch safle tirlenwi i'w drin fel gwarediad trethadwy

(1) Mae cyflawni gweithgarwch safle tirlenwi penodedig yng Nghymru i'w drin fel gwarediad trethadwy o'r deunydd y cyflawnir y gweithgarwch mewn perthynas ag ef (pa un a fodlonir yr amodau yn adran 3 ai peidio).

(2) Mae'r gwarediad trethadwy i'w drin fel pe bai wedi ei wneud pan gyflawnir y gweithgarwch safle tirlenwi penodedig am y tro cyntaf mewn perthynas â'r deunydd.

(3) Mae'r canlynol yn fathau o weithgarwch safle tirlenwi penodedig pan gânt eu cyflawni ar safle tirlenwi awdurdodedig—

(a) defnyddio deunydd i greu ffordd dros dro sy'n rhoi mynediad i fan gwarediadau tirlenwi neu i gynnal a chadw ffordd o'r fath;

(b) defnyddio deunydd i greu arwyneb solet dros dro neu i gynnal a chadw arwyneb o'r fath;

(c) defnyddio deunydd i greu bwnd cell neu i gynnal a chadw bwnd o'r fath;

(d) defnyddio deunydd (heblaw deunydd sy'n bodoli'n naturiol a echdynnir o'r safle) i greu bwnd sgrinio dros dro neu i gynnal a chadw bwnd o'r fath;

(e) defnyddio deunydd i orchuddio man gwarediadau tirlenwi yn ystod cyfnod pan fo gwarediadau tirlenwi yn peidio dros dro;

(f) gosod deunydd mewn man gwarediadau tirlenwi i ddarparu sylfaen ar gyfer unrhyw beth a ddefnyddir i leinio, i gapio neu i ddraenio'r man hwnnw, neu er mwyn atal difrod i unrhyw beth o'r fath;

(g) cadw deunydd mewn man nad yw at ddibenion gwaredu y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod hwyaf a bennir yn yr hysbysiad sy'n dynodi'r man o dan adran 55, oni bai yr ymdrinnir â'r deunydd yn unol â chytundeb o dan adran 56(4)(a);

(h) storio lludw (er enghraifft, lludw sy'n codi a lludw gwaelod);

(i) defnyddio deunydd mewn gwaith adfer.

(4) Yn is-adran (3)—

ystyr "arwyneb solet" ("*hard standing*") yw sylfaen y cyflawnir gweithgarwch safle tirlenwi arni;

ystyr "bwnd cell" ("*cell bund*") yw strwythur mewn man gwarediadau tirlenwi sy'n gwahanu symiau o ddeunydd a ddodir yn y man hwnnw;

ystyr "bwnd sgrinio" ("*screening bund*") yw strwythur, pa un ai uwchben y ddaear neu dan ddaear, ar gyfer diogelu neu guddio gweithgarwch safle tirlenwi neu leihau sŵn;

ystyr "gwaith adfer" ("*restoration work*") yw gwaith a wneir i adfer safle tirlenwi awdurdodedig (neu unrhyw ran o'r safle) at ddefnydd ac eithrio gwneud gwarediadau tirlenwi; ond **[**[F1]pan fo man gwarediadau tirlenwi yn cael ei gapio, nid yw gwaith a wneir i adfer y man hwnnw**]** yn waith adfer oni chaiff ei wneud ar ôl i'r man gael ei gapio.

(5) Caiff rheoliadau—

(a) darparu bod gweithgarwch safle tirlenwi i fod yn weithgarwch safle tirlenwi penodedig,

(b) addasu'r disgrifiad o weithgarwch safle tirlenwi penodedig, neu

(c) darparu bod gweithgarwch i beidio â bod yn weithgarwch safle tirlenwi penodedig.

(6) Caiff y rheoliadau ddiwygio'r adran hon neu unrhyw ddeddfiad arall sy'n ymwneud â'r dreth.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 8(4) wedi eu hamnewid (19.7.2019) gan Rheoliadau Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (Rhyddhadau) (Diwygiadau Amrywiol) 2019 (O.S. 2019/1143), rhlau. 1(2), **2**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 8 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 8(1)-(3), (5)(6) mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**I3** A. 8(4) mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 8.